

Cyngor Cymuned Llangernyw 28 Tachwedd 2018

Cofnodion:

Presennol: Gwydion, Emlyn, Ann, Elen, Clwyd, Diane, Einir (Cedeirydd)

Cynghorydd Sir – Garffild (cadw cofnodion)

Cyn y cyfarfod ffurfiol a'r agenda, penderfynwyd clywed cyflwyniad gan Elen am yr ymgynghoriad i Fferm Wynt Clocaenog. Dangoswyd map o'r ardal a'r gwahanol opsiynau o ran pa ardaloedd oedd wedi eu cynnwys. Mynegwyd siom nad oedd y cylch 'glas' yn cynnwys rhannau eang o blwyf Llangernyw, ond fe eglurodd Elen y gallai'r plwyf i gyd elwa os oes rhan fechan o'r plwyf o fewn y cylch glas – ond dyw hyn ddim yn sicr. Pwysleisiwyd pa mor bwysig oedd i gynifer a phosib o bobl a sefydliadau ymateb i'r ymgynghoriad.

Ar ol trafodaeth penderfynwyd galw cyfarfod arbennig o'r Cyngor Cymuned yn fuan i lunio ymateb ffurfiol.

Soniodd Elen hefyd am Fferm Wynt Brenig – a bod ymgynghoriad hefyd i'r datblygiad hwn. Dangoswyd map arall oedd yn dangos mai ardaloedd yn Sir Ddinbych fydda'n elwa o'r gronfa ariannol – a dim byd yn Sir Conwy. Bydd hyn hefyd yn cael ei drafod.

Ar fater arall, roedd Diane am dynnu sylw at adroddiad cwmni archwilwyr BDO i gyfrifon y Cyngor Cymuned. Roedd BDO wedi beirniadu'r Cyngor am gadw gormod o arian wrth gefn – er bod Diane wedi egluro nad arian 'precept' oedd y swm wrth gefn, ond arian Cyfrif 2 (Maelogan).

Cofnodwyd bod yr aelodau wedi trafod adroddiad BDO, ond bod angen sgwennu at y cwmni i gywiro eu camagraff am yr yr arian wrth gefn, roedd Diane ac Elen yn mynd i lunio llythyr i BDO a chopi i'r AC Llyr Huws Gruffydd. Angen hefyd i Iona y cyfrifydd fod yn ymwybodol o'r cywiriad a'r llythyr. Nodwyd yn ffurfiol bod y cyfrifon yn gywir, ond i ychwanegu bod yr arian wrth gefn yn uchel oherwydd cronfa Bro Cernyw.

Cyfarfod Ffurfiol y Cyngor:

1. Ymddiheuriadau: Gwyn a Gwynfor
2. Nodwyd bod Gerallt wedi cyflwyno ei ymddiswyddiad ar ol i'r agenda gwreiddiol gael ei argraffu, felly cyfeiriwyd at yr agenda newydd a Pwynt 9 (sedd wag ar y Cyngor). Wrth drafod hysbysebu'r sedd wag, nodwyd bod drws yr hysbysfrwdd yn Llangernyw angen ei drwsio, a bydd Emlyn yn mynd i asesu sut i'w atgyweirio.
3. Datgan cysylltiad – Diane yn datgan diddordeb cysylltiad teuluol yn ymwneud a chais cynllunio Trofarth 5.2

4. Cofnodion 24 Hydref. Nodwyd bod Pandy Tudur yn dal i gael problem hefo yswiriant diffibrilydd, ac yn dal i ystyried opsiynau gan gynnwys gosod y peiriant y tu allan i'r Ganolfan.

Einir – pwynt gweithredu ynglyn a'r mandad (ar yr agenda)

Einir – potensial rhannu clerc hefo Eglwysbach, ond Eglwysbach eisoes wedi penodi, heb drafod ymhellach hefo Bro Cernyw.

Clwyd – angen cadarnhau yn ffurfiol hefo Enlli ei bod yn fodlon cofnodi a chyfieithu, ac ychwanegodd Einir bod angen cyfrifydd i wneud y fantolen a delio hefo materion ariannol, er mwyn tynnu pwysau oddiar yr aelodau.

Ann – disgwyl pris gan Bob am drwsio a thacluso'r arhosfan bws.

Einir – angen newid cyfeiriad ar y ddogfen 'precept' hefo Cyngor Sir Conwy – Diane i gysylltu.

Pwynt gweithredu – angen edrych ar Siarter y Cyngor Tref a Chymuned. Penderfynwyd pasio hyn ymlaen i'r cyfarfod nesaf.

Ann – nodi fod gan Gynghorau Cymuned lawer mwy o waith y dyddiau yma, a bod pob agenda yn llawn o fis i fis.

Einir – cais am ol-daliad VAT (Diane ac Elen)

Einir – angen trafod adroddiad adeiladau gwag (ar yr agenda)

Derbyniwyd y cofnodion gydag Anne yn cynnig a Clwyd yn eilio.

5. Materion Ffyrdd ac Amgylchedd:

Diane wedi dechrau ymchwilio i ohebiaeth ynglyn ag adeilad yr Hen Efail. Bydd yn rhoi copiau i Garffild – sydd yn ceisio cael datrysiad i'r broblem. Nodwyd fod cofnod o 2012 yn nodi bod y cyn gynghorydd Dilwyn Roberts wedi dweud fod y 'bel yn nwylo'r perchennog'

Ann – nodi fod beirniad yng nghystadleuaeth Cymru Wledig wedi bod yn feirniadol iawn am gyflwr 'Iard y Stag'. Dywedodd Clwyd y byddai'n anfon copi o adroddiad Cymru Wledig i Garffild.

Ann – (4.2) nododd fod trafodaeth wedi bod am gyflwr y ffordd Allt Waterloo, a bod y Cyngor Sir yn ymwybodol o'r broblem. Garffild i gysylltu hefo'r Cyngor Sir i drafod y mater.

4.3 Celfi – Awgrymu gofyn am un fainc 'Steora' yn Llangernyw – ger Porth yr Eglwys. Einir i gadarnhau hefo Meira Woosnam, Conwy Cynhaliol.

4.4 Elen wedi gofyn am restr o adeiladau gwag y Plwyf – Einir am drafod gydag aelodau eraill a llunio rhestr i Elen.

4.5 Mynwentydd – Diolchwyd i Clwyd am anfon fersiynau dwyieithog i bawb – Emlyn yn cynnig pasio'r adroddiad ymlaen i gyfarfod arall yn y dyfodol er mwyn cael amser i ystyried.

Emlyn hefyd yn dweud fod angen diweddarau cynllun y mynwentydd ac ychwanegu bob tro y mae bedd newydd yn cael ei agor. Mae'r manylion i gyd mewn llyfr cofnodion – ond mae angen map/cynllun newydd a llyfr newydd. Pwynt Gweithredu – Garffild i gysylltu a'r Cyngor Sir er mwyn cael gwybod pwy sy'n gyfrifol am adnewyddu'r wybodaeth.

6. Ceisiadau Cynllunio:

5.1 0/45675 Garej. Cefnogi a dim gwrthwynebiad

5.2 0/45684 Glampio yn Trofarth Isaf. Cefnogi a dim sail i wrthwynebiad

7. Siarter y Cyngorau – i'w drafod yn y flwyddyn newydd

8. Materion Ariannol – Y mandad. Einir wedi ymchwilio hefo HSBC, ac angen checio enwau ar y mandad Banc (Gwydion, Emlyn, Gwynfor, Gwyn ac Einir.) Angen tynnu enwau cyn-gynhorwyr i ffwrdd. Bydd Einir yn mynd ati i lenwi ffurflen ar-lein gyda HSBC i hysbysu am y diwygiadau.

7.2 Precept – penderfynwyd pasio hyn ymlaen i gyfarfod Rhagfyr

9. Adroddiad y Cyngorydd Sir – cafwyd adroddiad ar lafar gan Garffild yn nodi'r canlynol:

- Debyg y bydd diffyg ariannol y Cyngort Sir yn 2019/20 dros £15miliwn, ac effaith hyn fydd toriadau o 4% i gyllidebau Ysgolion a Gofal Cymdeithasol, a 7% i wasanaethau eraill, a chynnydd o dros 11% i dreth y Cyngor. Nifer o benderfyniadau anodd dros y 3 mis nesaf cyn gosod y Gyllideb derfynol.
- Canmoliaeth i'r gwasanaeth ail gylchu newydd yn yr ardal (y sgip yn Llangernyw), mae'n ymddangos hefyd bod y cynllun casglu sbwriel ty bob 4 wythnos yn gweithio yn dda ac y bydd lefelau ail gylchu yn cynyddu, a sbwriel i 'landfill' yn gostwng.

10. Cwrs GDPR – Anne wedi paratoi adroddiad llawn a manwl – pwysig i bawb fod yn ymwybodol o'r canllawiau a rheolau newydd. Anne i anfon ei hadroddiad i'r aelodau.

11. Adroddiad Arolwg y Cyngor (BDO) – wedi ei drafod eisoes ar ddechrau'r cyfarfod

12. Sedd Wag – Cofnodwyd bod ymddiswyddiad Gerallt wedi ei dderbyn yn ffurfiol. Sedd Llangernyw ydi hon – a bydd angen hysbysebu, dyddiad cau ayb.

13. Blychau Ffon – Einir wedi llythyru hefo Bro Cernyw a Pandy

14. Biliau – Cyfieithu £102.43 talu

Einir – costau clerch £75 talu

Bil Dwr £17 talu

Hysbyseb y Gadlas – siec newydd am £4 talu

15. Materion Lleol – Einir yn nodi bod cwynion am fan yn parcio yn fler yn Pandy (Garffild awgrymu codi hyn hefo PCSO), tro peryglus yn y ffordd i gyfeiriad Llansannan a choed yn tyfu dros y ffordd ger Plas yn Trofarth (Einir i gofnodi'r ddau fater hefo'r Cyngor Sir.)

Ann – Dwr yn casglu ger Glanrafon (Ann i gofnodi)

Diane – cwynion bod y ffordd yn 'pantio' ger Capel y Cwm (Diane i gofnodi)

16. Cyfarfod nesaf – Rhagfyr 18fed yn Pandy Tudur